GORCHYMYN SIR BENFRO (FFORDD YR A477 O DDOC PENFRO I JOHNSTON A FFORDD DOSBARTH III (C3007) O BURTON I HWLFFORDD) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA A 40 MYA) 2020

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato o hyn allan fel "y Cyngor") wrth arfer ei bwerau o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 30 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darn o ffordd a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;
3. Caiff Atodlen 1 / Cyf.1.10.0 / Lleoliad – Ffordd Hwlffordd i Burton i 'Orchymyn Sir Benfro (Ffyrdd Amrywiol) (Ffyrdd Cyfyngedig & Therfyn Cyflymder o 30mya) 2017' ei dirymu cyn belled ag y mae'n ymwneud â'r darn o ffordd a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;
4. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Sir Benfro (Ffordd yr A477 o Ddoc Penfro i Johnston a'r Ffordd Dosbarth III (C3007) o Burton i Hwlffordd) (Terfyn Cyflymder 30mya a 40mya) 2020' a daw i rym ar y 2 diwrnod Tachwedd 2020.

RHODDWYD o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y 26 diwrnod hwn o Hydref Dwy Fil ac Ugain.

Gan hynny gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO yma
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig Jill Davies, SOLICITOR.

COUNTY COUNCIL · PEMBROKESHIRE

9822

Atodlen 1
Terfyn cyflymder 30mya

Ffordd	**Hyd**
C3007 yn Burton	o bwynt 203 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at y lanfa, i gyfeiriad y gorllewin am 95 metr.

Atodlen 2
Terfyn cyflymder 40mya

A477 wrth Bont Cleddau	o bwynt 25 metr i'r de o'r gyffordd â'r C3007 i Burton, i gyfeiriad y gogledd hyd bwynt 195 metr i'r gogledd o'r gyffordd honno.
C3007 o Bont Cleddau i Burton	o'r gyffordd â'r A477 hyd at bwynt 298 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at y lanfa.

Position of new 40/50mph speed limit

Existing place name sign upgraded.

10 no yellow bar markings and 30 roundel on approach to 30mph limit

Existing 30 signs upgraded to have yellow backing.

Brompton Park

New VAS

Burton Ferry

Existing Burton sign removed.

New Burton / 30 sign provided. 5no yellow bar marks to suppliment sign

30 limit extended by 47 metres.

30 signs removed

New 30/40 sign. 30 roundel to have high vis backing.

KEY

- Existing 30mph limit (no change)
- Extended 30mph limit
- New / extended 40mph limit
- Existing 40mph limit

Pembrokeshire County Council
Directorate of Transportation and Environment
County Hall
Haverfordwest
SA61 1TP

Burton / A477
30 & 40mph Speed Limit &
Sign Improvement Scheme Review

NOT TO SCALE

Reproduced from the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. Crown Copyright.

Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Pembrokeshire CC - Licence Number 100023344.